

# Lles anifeiliaid

Rydym ni'n cynnal gwiriadau rheolaidd ar ladd-dai yn y Deyrnas Unedig (DU), er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rheoliadau sy'n cynnal lles anifeiliaid.

O dan [Reoliad y Cyngor 1099/2009](#), gweithredwyr busnesau sy'n gyfrifol am les anifeiliaid a diogelwch bwyd mewn lladd-dai. Rhaid i chi fodloni gofynion deddfwriaethol o ran dyluniad, cynllun a chyfarpar y lladd-dy.

Rhaid i'ch lladdwyr gael eu hyfforddi a'u trwyddedu'n briodol i ladd yr holl rywogaethau a gyflwynir iddynt.

Chi sydd yn gyfrifol am sicrhau bod anghenion yr anifeiliaid yn cael eu bodloni ac am les yr anifeiliaid sydd yn eich gofal.

Mae Milfeddygon Swyddogol a hyfforddir yn arbennig yn cynnal gwiriadau i sicrhau nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â lles yr anifeiliaid a gyflwynir i'w lladd.

Gall hyn ddigwydd:

- pan fydd yr anifeiliaid ar y fferm
- wrth eu cludo
- pan fydd yr anifeiliaid yn cyrraedd y lladd-dy
- hyd at y pwynt lladd

Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y gweithredwr busnes weithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu lles anifeiliaid. Mae arolygwyr hylendid cig yn eu cefnogi gyda'r dyletswyddau hyn.

Er mwyn lleihau risg yr anifeiliaid yn dioddef yn ystod y broses, mae ein staff gweithredol yn gwirio:

- dadlwytho a thrin yr anifeiliaid
- lle cânt eu cadw cyn eu lladd
- atal a thrin yr anifeiliaid
- lleoliad yr offer stynio
- effeithiolrwydd y stynio a'r gwaedu

Mae hyn yn cynnwys monitro'r lladd drwy ddulliau crefyddol gan gynnwys cyfleusterau atal arbennig a all fod yn eu lle at y diben hwn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [dudalennau.gov.uk](http://dudalennau.gov.uk) ar [les anifeiliaid](#).

## Monitro lladd-dai yng Nghymru a Lloegr

Rydym ni'n monitro lladd-dai i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu diogelu cyn ac yn ystod y lladd.

Rydym ni'n cyhoeddi tystysgrifau cymhwysedd i laddwyr a gweithredwyr eraill sy'n gweithio gydag anifeiliaid fel trinwyr neu fagwyr.

Rydym ni'n gwneud hyn er mwyn sicrhau bod gennych chi'r hyfforddiant cywir ar gyfer yr

anifeiliaid rydych chi'n eu trin a'r dyletswyddau rydych chi'n eu cyflawni.

Rydym ni'n defnyddio deddfwriaeth Rheoliad y Cyngor 1099/2009 ar amddiffyn anifeiliaid yn ystod y broses ladd. Mae Cymru a Lloegr hefyd wedi cadw rheolau cenedlaethol sy'n amddiffyn anifeiliaid yn well na Rheoliad yr UE adeg eu lladd.[gr\) 2015 SI 1782](#)

Rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid yng Nghymru.

[Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd \(Cymru\) 2014 SSI 951](#)

## **Defnyddio teledu cylch cyfyng i fonitro prosesau lladd**

Rydym ni'n gorfodi polisi dim goddefgarwch mewn perthynas â chreulondeb i anifeiliaid. Rhaid i chi fod â systemau priodol ar waith i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a chyflawni safonau lles anifeiliaid gofynnol.

Rydym ni'n cefnogi'r defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai fel dull monitro effeithiol ar gyfer lles anifeiliaid. Mae hyn yn helpu gweithredwr y busnes bwyd a'u tîm rheoli i sicrhau bod y safonau angenrheidiol yn cael eu bodloni bob amser.

## **Pob canlyniad arolwg lles anifeiliaid**

Bob blwyddyn rydym ni'n cynnal arolwg ar deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr.

Mae canlyniadau arolygon lles anifeiliaid a gynhaliwyd gennym ni yn 2011, 2013 a 2015 mewn lladd-dai hefyd ar gael yn yr [archifau cenedlaethol](#).

## **Gofynion ar gyfer lladd heb stynio**

Os nad ydych chi'n stynio eich anifeiliaid cyn eu lladd, mae DEFRA, yn ddiweddar wedi egluro'r [rheoliadau sy'n ofynnol ar gyfer lladd anifeiliaid cnoi cil bach heb eu stynio drwy ddeddfau grefyddol](#).

[View Requirements for non-stun slaughter of small ruminant animals by religious rites. as PDF](#)  
(29.25 KB)

## **Hyfforddiant**

Rhaid i unigolion sy'n lladd ac yn cynnal gweithgarwch cysylltiedig fod â chymhwyster hyfedredd cyn gallu gwneud cais am Dystysgrif Cymhwysedd.

Nid oes angen cymhwyster hyfedredd arnoch chi os oes gennych chi hawliau blaenorol ac yn bodloni meini prawf y cais sydd wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth drwydded i ladd.

and [Chymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd \(RSPH\)](#)

Mae'r [Cymhwyster Bwyd a Diod \(FDQ\)](#) a [Chymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd](#) yn cymeradwyo busnesau bwyd a darparwyr addysgu i gyflenwi ac asesu cymwysterau hyfedredd. Gallant ddarparu rhagor o wybodaeth i'ch staff er mwyn cwblhau'r cymhwyster gofynnol.

## **Ein gwiriadau**

Mae Milfeddygon Swyddogol a hyfforddir yn arbennig yn cynnal gwiriadau i sicrhau nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid a gyflwynwyd i'w lladd.

Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y gweithredwr busnes weithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu lles anifeiliaid. Mae Arolygwyr Hylendid Cig yn eu cefnogi gyda'r dyletswyddau hyn.

Mae ein staff gweithredol yn monitro'r broses ladd i sicrhau bod lles wrth ladd yn cael ei gynnal i'r safonau uchaf.

Cynhelir gwiriadau ar y canlynol:

- dadlwytho a thrin yr anifeiliaid
- lle cânt eu cadw cyn eu lladd
- atal yr anifeiliaid
- gosod offer stynio
- effeithiolrwydd y stynio
- effeithlonrwydd y gwaedu

Mae'r gwiriadau hyn yn lleihau risg unrhyw ddiodefaint anifeiliaid yn ystod y broses..

Mae hyn yn cynnwys monitro'r lladd drwy ddulliau crefyddol gan gynnwys cyfleusterau atal arbennig a all fod yn eu lle at y diben hwn.

## Adroddiadau o'n gwiriadau

Mae ein hadroddiadau'n dangos nifer y rheiny nad ydynt yn cydymffurfio â lles yng Nghymru a Lloegr yn ôl rhywogaethau ym mhob ardal o ladd-dai, gan gynnwys:

- dadlwytho
- llociau
- symud ac atal
- stynio
- gwaedu
- cyfrifoldebau rheoli

Mae cyfrifoldebau rheoli yn cynnwys y meysydd y mae gweithredwr y busnes bwyd yn gyfrifol amdanynt, megis sicrhau bod Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yn gyfredol.

Mae'r data hefyd yn dangos nifer y safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio, nifer yr anifeiliaid a effeithiwyd arnynt, a'r mathau o gamau gorfodi a gymerwyd.

England a Wales

[View Animal Welfare non-compliances for Q1 2017/18 as PDF](#) (859.54 KB)

England a Wales

[View Animal Welfare non-compliances for Q2 2017/18 as PDF](#) (595.72 KB)

## Cymru a Lloegr

Cynhaliwyd arolygon lles anifeiliaid wythnos o hyd mewn lladd-dai ym Mhrydain yn 2011 a 2013 i roi sicrwydd bod:

- gweithredwyr busnesau bwyd yn cymryd camau gweithredol i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chyflawni safonau lles angenrheidiol anifeiliaid

- Milfeddygon Swyddogol a thimau rheng flaen yn cyflawni eu rolau'n effeithiol, gyda monitro priodol a chymryd camau gorfodi perthnasol pe bai gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio
- rhaglen arolygu dirybudd wedi'i gynnal hefyd ym mis Chwefror i fis Mawrth 2015, gan gyflwyno'r canlyniadau i'n Bwrdd ym mis Mehefin 2015

[Anifeiliaid fferm: data o'r arolwg o ddulliau lladd 2015](#)